

Disgrifiad Swydd – Rheolwr Caffi Hyb Underhill

Ein Rheolwr Caffi:

Bydd ein Rheolwr Caffi yn Hyb Underhill yn gyfrifol am bob agwedd ar weithrediadau'r Caffi. Byddant yn rhan o'r gwaith o agor y Caffi a'i sefydlu fel cyfleuster lluniaeth newydd rhagorol yn y Mwmbwls. Bydd hyn yn cynnwys llunio bwydlenni a fydd yn gweini defnyddwyr presennol y parc yn ogystal â denu cwsmeriaid newydd, recriwtio a hyfforddi tîm o staff rhan amser a gwirfoddolwyr, sefydlu'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer ei weithrediad o ddydd i ddydd a'r gydymffurfiaeth â'r gofynion iechyd a diogelwch a gofynion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar lefel pum seren.

Rydym yn rhagweld y bydd yr unigolyn a benodwyd wedi rhedeg sefydliad tebyg (bwyd, diod ac alcohol) a byddant yn mwynhau bod wyneb yn wyneb â chwsmeriaid. Bydd angen iddynt feddu ar drwydded bersonol a'r lefel briodol o gymwysterau hylendid i redeg cegin broffesiynol.

Bydd y rôl yn ymarferol, a bydd angen i'r unigolyn allu darparu a gweini pryddau i'r cyhoedd, llunio bwydlenni bwyta hamddenol ar gyfer y gwasanaeth ar eich eistedd a bwydlen gludfwyd symlach ar gyfer y gwasanaeth hatsh. Oherwydd y bydd ochr coffi a diodydd y Caffi yn rhan bwysig o'r gwasanaeth, bydd gan ein Rheolwr Caffi sgiliau *barista*, yn ddelfrydol.

Bydd angen i Reolwr y Caffi weithio'n agos gyda Rheolwr Datblygu Underhill o ran cydgysylltu gweithgareddau'r Hyb a'r cynnig arlwygo a chynhyrchu a gweithredu syniadau ar gyfer tyfu'r busnes. Fel un o brif wynebau Hyb Underhill, bydd angen iddynt gael sgiliau personol cryf a gallu rheoli tîm bach o staff a gwirfoddolwyr.

Disgwyliadau'r rôl:

Rydym yn gobeithio penodi'r Rheolwr Caffi i ymuno â ni yn gynnar yn 2023, cyn agor Hyb newydd Underhill. Bydd cyflenwr y gegin a'r ystafell arlwygo yn gosod y cyfarpar gan ddilyn y cynllun yn ystod rhan gyntaf y cyfnod hwn a bydd ein Rheolwr Caffi felly'n chwarae rôl allweddol mewn cwblhau'r broses o sefydlu'r gwasanaeth, cyn ei agor yn llawn.

Ionawr – Ebrill 2023

I ddechrau, bydd Rheolwr y Caffi yn canolbwyntio ar sicrhau bod holl brosesau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r prosesau iechyd a diogelwch ar waith. Bydd angen cwblhau'r bwydlenni cychwynnol (ar gyfer y Caffi a'r gwasanaeth cludfwyd), bydd angen sefydlu'r berthynas â chyflenwyr, a bydd angen sefydlu'r system man gwerthu. Bydd angen hyfforddi staff rhan amser a gwirfoddolwyr. Bydd cyfnod agor meddal gyda gwesteion a wahoddwyd yn galluogi i'r bwydlenni a'r agweddau gweithredu gael eu profi a'u haddasu.

O fis Ebrill 2023

Unwaith y bydd y caffi ar agor yn llawn, bydd y rôl yn esblygu a bydd yn golygu paratoi bwyd a gweini gyda chymorth staff rhan amser eraill. Bydd angen i'r unigolyn reoli tîm bach a bod yn gyfrifol am sicrhau bod y Caffi yn darparu bwyd a diod o safon uchel mewn amgylchedd sydd wedi'i gynnal yn dda sy'n cynnig awyrgylch cynnes a chyfeillgar.

Teitl y Swydd:	Rheolwr Caffi Hyb Underhill
Hyd y swydd:	Parhaol
Oriau gwaith:	40 awr Bydd yr oriau'n cael eu gweithio'n hyblyg, a bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y rhan fwyaf o benwythnosau yn ogystal â rhai nosweithiau ar sail gofynion y gwaith.
Yn atebol i:	Rheolwr Datblygu Underhill
Lleoliad:	Parc Underhill, y Mwmbwls, Abertawe
Cyflog:	£22,000 - £25,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar brofiad Cyfraniad pensiwn o + 3%

Rolau a Chyfrifoldebau

Prif Ddiben:

Datblygu a rheoli caffi Hyb Underhill, paratoi bwyd a diodydd yn uniongyrchol i gwsmeriaid, a gweithio gyda Rheolwr Datblygu Underhill i ddarparu gwasanaeth bywiog a llwyddiannus sy'n bodloni'r ymrwymïadau a wnaed i'r prif gyrrff cyllido ac anghenion y gymuned leol.

Cyfrifoldebau Penodol:

Gan fod hwn yn rôl newydd mewn sefydliad newydd, gallai'r cyfrifoldebau disgwylidig a ganlyn esblygu, a disgwylir i'r unigolyn a benodir ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill sy'n dod i'r amlwg wrth i'r rôl a'r gwasanaeth ddatblygu.

- Rheoli gweithrediad Caffi Hyb Underhill o ddydd i ddydd, gan sicrhau ei fod yn rhedeg yn effeithlon a llyfn er mwyn darparu profiad rhagorol i'r holl gwsmeriaid.
- Datblygu a chynnal amgylchedd dymunol a chroesawgar i gwsmeriaid y Caffi a'r cyfleusterau cludfwyd.
- Darparu gwasanaeth bwyd a diod sy'n sicrhau'r potensial mwyaf o ran cynhyrchu incwm y gwasanaeth.
- Sicrhau bod ein bwydlenni'n adlewyrchu gofynion y cwsmeriaid, gan eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau tymhorol a dyddiadau pwysig y calendr.
- Paratoi a gweini bwyd a diodydd yn uniongyrchol i gwsmeriaid.
- Sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi mewn perthynas â gwasanaethau i gwsmeriaid a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen (*Barista*, paratoi bwyd a hylendid)
- Sicrhau bod cegin, ystafell arlwyo a manau cyhoeddus y caffi yn cael eu glanhau a'u cynnal er mwyn cydymffurfio â gofynion 5* EVH
- Rheoli'r cyflenwyr bwyd a diod, datblygu cysylltiadau â'r rheini sy'n cynnig cynnyrch lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl
- Cynnal cofnodion cyllid cywir a chyfredol
- Cynnal y lefelau cywir o stoc a chylchdroi'r stoc
- Goruchwylio system adborth gan cwsmeriaid am y caffi, ac ymateb i'r sylwadau fel sy'n ofynnol
- Adrodd i Reolwr Datblygu Underhill ynghylch adborth cwsmeriaid, gwerthiannau a rheoli arian

- Llunio cofnodion staff ar y gofynion hyfforddiant ac Adnoddau Dynol.
- Datblygu a rheoli rotas ar gyfer staff rhan amser a gwirfoddolwyr
- Cynnal cofnod o'r oriau a weithiwyd i'w cynnwys ar y gyflogres
- Cynnal ffeil ddamweiniau a sicrhau y glynir at y prosesau cymorth cyntaf
- Sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni, gan gynnwys profi offer cludadwy, cynnal cofrestr asesu risg, profi larymau tân a chynnal cyfarpar amddiffyn rhag tân.

Profiad, Sgiliau a Chymwysterau

Profiad o:

- Reoli Caffi
- Rheoli staff
- System man gwerthu a rheoli arian o ddydd i ddydd
- Rheoli stoc, archebu a chyflenwyr
- Llunio bwydlenni
- Sgiliau TG sylfaenol

Gwybodaeth a Sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ac yn chwaraewr tîm
- Y gallu i weithio o dan bwysau ac i amldasgio
- Sgiliau *Barista*
- Paratoi a gweini bwyd a diodydd a geir mewn caffi
- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol

Cymwysterau

- Trwydded bersonol – sydd naill ai ganddynt eisoes neu barodrwydd i'w sicrhau
- Tystysgrifau hylendid i'r lefelau gofynnol

Priodoleddau personol

- Brwdfrydig ynghylch Underhill a photensial y datblygiad
- Hunanreolaeth ac ysgogiad
- Llygad am fanylion gweithredol
- Bod yn barod i dorchi eich llewys a bwrw iddi
- Hyblyg a chyfeillgar

Telerau a Buddiannau Cyflogaeth

- Rhaid gweithio'r oriau mewn modd hyblyg, gan gynnwys ar y mwyafrif o benwythnosau a rhai nosweithiau, gyda 2 ddiwrnod i ffwrdd pob wythnos.
- Byddwch yn ddeiliad allwedd dynodedig ac mae'n bosibl y byddwch yn cael eich galw allan yn ystod oriau anghymdeithasol, i fynychu argyfwng.
- 28 diwrnod o wyliau, gan gynnwys gwyliau banc, y bydd angen gweithio ar rai ohonynt.
- Cyfraniad pensiwn o 3%

Er gwybodaeth, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gytuno i wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd